# Partneriaeth
# Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
# Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

## Cofnodion y Cyfarfod Croesawu
## a gynhaliwyd
## ddydd Gwener 15 Mai 2015
## yn
## Ystafell Gyfarfodydd Parc Gwledig Loggerheads
## am 12:30 pm

**Aelodau Partneriaeth AHNE**

**Yn Cynrychioli Rheolaeth Tir**
Sandy Archdale
Gareth Wyn Jones
Sharron Jones

**Yn Cynrychioli Diddordeb Trefol**
Peter Scarll
Philip Thane

**Diddordeb Unigol**

Helen Walker
David Davies
John I Roberts

**Yn Cynrychioli Diddordeb Gwledig**
Christine Evans
Roger Cragg

**Yn Cynrychioli Diddordeb Tirwedd**

Michael Skuse

**Yn Cynrychioli Diddordeb Hanesyddol**
Tony King

**Yn Cynrychioli'r Amgylchedd Naturiol**
Les Starling

**Yn Cynrychioli'r Amgylchedd Adeiledig**
Philip Durrell

**Yn Cynrychioli Diddordeb Busnes**
Dewi Davies

**Yn Cynrychioli Mynediad a Hamdden**
Andrew Worthington

**Yn Cynrychioli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE)
David Shiel (Uwch Swyddog AHNE)
Tony Hughes (Swyddog Cynllunio AHNE)
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)
Karen Holthofer (Swyddog Cyfathrebu AHNE)

**Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
Cynghorydd Hugh Jones
(Cadeirydd Cydbwyllgor AHNE)
Cynghorydd RJ Dutton OBE

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**
Cynghorydd Stuart Davies (Cadeirydd)
Cynghorydd Merfyn Parry
Cynghorydd Martyn Holland
ynghyd â
Huw Rees (Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad a Threftadaeth CSDd)

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir y Fflint**
Cynghorydd Carolyn Thomas
Cynghorydd Paul Cunningham
Cynghorydd Colin Legg
ynghyd â
Tom Woodall (Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad CSFf)

**Arsylwr Cyfoeth Naturiol Cymru**
Paul Mitchell

**Arsylwr y Cyfarfod**
Cynghorydd Rhys Hughes

**Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -** Cynghorydd Lloyd Kenyon, Martin Howarth (CBSC)

## 1. Cinio a Rhwydweithio

## 2. Gwobr AHNE ar gyfer 2014

2.1 **Cefndir y Wobr**

Bob blwyddyn mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy’n dewis unigolyn neu grŵp sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig at dirwedd a chymunedau AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cynhelir y wobr yn flynyddol a gwahoddir enwebiadau gan fusnesau/unigolion sy’n gweithredu o fewn yr AHNE ac sy’n cynnig gwasanaeth o ansawdd da mewn dull cynaliadwy, ynghyd â hybu’r AHNE. Ystyriwyd enwebiadau eleni gan Gydbwyllgor Ymgynghorol Interim cyn i’r Bartneriaeth gael ei chynnal.

2.2 **Cyflwyno Gwobr AHNE ar gyfer 2014**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Jones, Cadeirydd Cydbwyllgor AHNE, Wobr AHNE 2014 i Mr Richard Jones (Sgiliau Cefn Gwlad), ac aeth rhagddo i esbonio fod Richard Jones wedi gwneud llawer o waith AHNE dros 15 mlynedd. Roedd yn grefftwr arbennig a oedd yn defnyddio technegau adeiladu traddodiadol, yn enwedig codi waliau sych, gosod sylfaen gerrig a phlastro gyda morter calch. Er mai un o blith nifer o gontractwyr a ddefnyddir gan yr AHNE yw Richard, mae wedi bod yn gyfrifol am lawer o’r gwaith arbennig sy’n cael ei gysylltu â’r AHNE, er enghraifft:

- Y maes parcio ym Mhen Barras
- Y rampiau cerrig ym Moel Arthur, Penycloddiau, Moel Fenlli
- Yr olygfan ym Mhen y Pigyn
- Bwthyn y Bugail
- Y ddôl yng Nghoed Nercwys

Roedd gwaith Richard yn arloesol gan iddo ddod o hyd i ddulliau traddodiadol i ymdrin â phroblemau modern yn y dirwedd a sicrhau ei fod nid yn unig yn cyd-fynd â’r dirwedd, ond yn gwella cymeriad naturiol y dirwedd hefyd. Yn aml roedd gwaith Richard yn gosod safon a fabwysiadwyd gan asiantaethau eraill, er enghraifft, techneg y rampiau cerrig i ddiogelu rhagfuriau’r bryngaerau o’r Oes Haearn ar Fryniau Clwyd, a fabwysiadwyd maes o law gan English Heritage a Cadw ar safleoedd eraill. Roedd Richard yn cwblhau gwaith yn gyson gyda gwirfoddolwyr ac roedd wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau o fewn y maes hwn. Roedd Richard yn aelod allweddol o’r Gymdeithas Waliau Sych ac mae'n cynnal cyrsiau hyfforddi rheolaidd ar sgiliau traddodiadol ac yn adnabyddus am ei ymrwymiad a’i sylw i fanylder. Dros y blynyddoedd mae Richard wedi bod yn hollbwysig yn yr ymdrech i sicrhau’r ansawdd, y gofal a’r arloesedd arbennig a gysylltir â gwaith yr AHNE. Mae Richard hefyd wedi darparu cyflogaeth dda i bobl leol sydd wedi mwynhau gweithio yng nghefn gwlad.

## 3. Croeso i Bartneriaeth AHNE

3.1 **Croeso gan Gadeirydd Cydbwyllgor AHNE**

Agorwyd Cyfarfod cyntaf Partneriaeth AHNE gan Gadeirydd Cydbwyllgor AHNE, y Cynghorydd Hugh Jones. Dywedodd ei bod yn anrhydedd croesawu'r aelodau newydd i'r Bartneriaeth, a diolchodd yn ddiffuant am ymuno â'r Bartneriaeth a mynychu'r cyfarfod. Aeth yn ei flaen i esbonio fod yr AHNE wedi eu plesio gan nifer y ceisiadau a ddaeth i law ar gyfer y Bartneriaeth, a'i fod wedi ceisio sicrhau cynrychiolaeth dda o bob maes o'r AHNE. Pwysleisiodd natur annibynnol y Bartneriaeth a oedd ar wahân i'r Awdurdodau Lleol.

Ailadroddodd Cynghorydd Hugh Jones bwysigrwydd 'Gweithio fel Partneriaeth' ac y byddai arbenigedd a chyfraniad yr aelodau newydd yn 'allweddol' i bopeth yr oedd yr AHNE yn ei gyflawni, a hebddo, ni fyddai'n bosibl i'r AHNE lwyddo.

Diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant i gyn Gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Interim, y Cynghorydd Carolyn Thomas, am ei holl ymrwymiad a'i brwdfrydedd tuag at yr AHNE yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd.

3.2 **Croeso gan Swyddog AHNE**

Croesawodd Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE, yr aelodau newydd i'r Bartneriaeth a dywedodd ei fod yn falch iawn o lefel arbenigedd a gwybodaeth yr aelodau newydd a'i fod yn awyddus i'r AHNE elwa ar hynny.

Dywedodd y Swyddog AHNE wrth aelodau newydd fod croeso iddynt alw heibio i'r swyddfa yn Loggerheads neu ffonio'r swyddfa - 01352 810614 os oeddent yn ansicr ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r Bartneriaeth.

3.3 **Cydbwyllgor AHNE**

Esboniodd y Swyddog AHNE mai rôl y Cydbwyllgor oedd rheoli gwaith strategol yr AHNE (h.y. cyfrifoldeb cyffredinol am gyllideb yr AHNE a sicrhau y cedwir at bolisïau'r AHNE).
Byddai'r Bartneriaeth AHNE yn dod o dan y Cydbwyllgor ac yn darparu fforwm trafodaeth i'r AHNE.

Esboniodd y Swyddog AHNE fod y Cydbwyllgor AHNE yn cynnwys chwe aelod cabinet ALI:-

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd Hugh Jones (Cadeirydd) | - | CBSW |
| Cynghorydd Ian Roberts | - | CBSW |
| Cynghorydd Hugh Evans | - | Arweinydd CSDd |
| Cynghorydd Huw L Jones | - | CSDd |
| Cynghorydd Bernie Attridge | - | CSFf |
| Cynghorydd Derek Butler | - | CSFf |

3.4 **Partneriaeth AHNE**

Esboniodd y Swyddog AHNE fod gan bob aelod rôl unigol o fewn y Bartneriaeth ac y byddai gweithgorau bach yn cael eu ffurfio’n fuan. Byddai aelodau’n perthyn i’r gweithgorau a fyddai’n elwa fwyaf ar eu harbenigedd e.e. Amgylchedd Hanesyddol, Amgylchedd Adeiledig ayb.

## 4. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Bartneriaeth

4.1 **Cefndir**

Esboniodd y Swyddog AHNE fod Cadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Interim (IJAC) wastad wedi bod yn aelod o Awdurdod Lleol ac wrth ddewis y Cadeirydd y drefn oedd cylchdroi rhwng y tri ALl lle’r oedd yr AHNE. Cyn Gadeirydd IJAC oedd y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint) a Chadeirydd Cydbwyllgor AHNE oedd y Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam). Felly dylai Cadeirydd y Bartneriaeth fod yn Gynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych.

4.2 **Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Bartneriaeth**

Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland enw’r Cynghorydd Stuart Davies fel Cadeirydd Partneriaeth AHNE ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

**PENDERFYNWYD**

Bod y Cynghorydd Stuart Davies (CSDd) yn cael ei ethol yn Gadeirydd Partneriaeth AHNE.

Dywedodd y Cynghorydd Davies ei fod wedi bod yn feirniadol o’r AHNE yn y gorffennol ond roedd yn cydnabod fod y Bartneriaeth yn ddechrau newydd i’r AHNE a’i bod yn ffordd ragorol i’r AHNE symud ymlaen. Roedd yn annog mwy o bobl i fod yn rhan o’r AHNE.

4.3 **Enwebu Is-gadeirydd x2**

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham enw’r Cynghorydd Carolyn Thomas ac eiliwyd hyn gan Cynghorydd Hugh Jones

Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Jones enw’r Cynghorydd Bob Dutton; eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Stuart Davies

**PENDERFYNWYD**

Etholwyd y Cynghorydd Carolyn Thomas a’r Cynghorydd Bob Dutton yn Is-gadeiryddion Partneriaeth AHNE

Yna aeth pawb ati i gyflwyno eu hunain.
Aeth y Cynghorydd Stuart Davies yn ei flaen i gadeirio’r cyfarfod.

## 5. Cynllun Rheoli AHNE

Rhoddodd Uwch Swyddog AHNE gyflwyniad cryno o Gynllun Rheoli AHNE 2014 - 2019. Esboniodd fod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn datgan bod yn rhaid adolygu’r Cynllun Rheoli bob pum mlynedd; roedd adran 85 yn datgan bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus ystyried y Cynllun. Cyhoeddwyd Cynlluniau Rheoli blaenorol i’r AHNE yn 2004 a 2009. Yn 2011 ehangwyd yr AHNE i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy, gan fwy neu lai ddyblu maint yr AHNE.

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cyhoeddwyd Datganiad Interim ar gyfer ardal newydd yr AHNE. Felly roedd yr Adolygiad o'r Cynllun Rheoli yn adolygu Cynllun 2009 a Datganiad Interim 2011.

Cymeriad a Nodweddion Arbennig
Rhannwyd Cymeriad a Nodweddion Arbennig yr AHNE yn bedair rhan:
Nodweddion Naturiol, Tirwedd Hanesyddol, Mynediad a Hamdden, Diwylliant a Phobl. Yna edrychodd y Cynllun ar:

- gyflwr y nodweddion a'r cymeriad (Cyflwr Adroddiad AHNE)
- pa faterion sy'n effeithio arnynt
- sut ydym am ymateb (y Weledigaeth, amcanion a'r Camau Gweithredu)
- sut gallwn ni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o fanteision y dirwedd?

Esboniodd Uwch Swyddog AHNE fod y Cynllun Rheoli drafft wedi ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Interim a'i fod yn destun ymgynghoriad tan 29 Mehefin 2015. Gwahoddwyd yr holl aelodau i un o'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelid ar:

| | | |
|---|---|---|
| **8 Mehefin 2015** | **Llyfrgell Prestatyn** | **2:00 pm - 7:00 pm** |
| **9 Mehefin 2015** | **Pafiliwn Chwaraeon Corwen** | **2:00 pm - 7:00 pm** |
| **15 Mehefin 2015** | **Parc Gwledig Loggerheads** | **2:00 pm - 7:00 pm** |
| **18 Mehefin 2015** | **Plas Newydd, Llangollen** | **2:00 pm - 7:00 pm** |
| **24 Mehefin 2015** | **Parc Gwledig Tŷ Mawr** | **2:00 pm - 7:00 pm** |

Byddai'r Cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor ei gymeradwyo cyn ei gyhoeddi yn ystod haf 2015.

5.1 Yna cafwyd trafodaeth. Esboniodd y Swyddog AHNE fod y Cynllun Rheoli eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Interim (IJAC) a'r Cydbwyllgor i gadarnhau bod y 'Cymeriad a'r Nodweddion Arbennig' yn gywir.
Mynegodd un aelod bryderon fod addysg, yr amgylchedd hanesyddol ac amaethyddiaeth, oll yn cael sylw blaenllaw yng ngwaith yr AHNE ac y dylid pwysleisio hyn yn y Cynllun. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog AHNE fod aelodau unigol wedi eu penodi i'r bartneriaeth i ganolbwyntio ar feysydd penodol, ac y byddai is-grwpiau'n cael eu cynnal yn fuan.
Esboniodd Uwch Swyddog AHNE y byddai'r holl sylwadau am y Cynllun yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor ac y byddai'r Cydbwyllgor yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid ei gymeradwyo ai peidio. Byddai'r Swyddog AHNE a'r Uwch Swyddog AHNE yn cwblhau Adroddiad Interim a byddai copi'n cael ei rannu i aelodau.
Dywedodd yr Uwch Swyddog AHNE wrth aelodau y dylai unrhyw un a oedd yn awyddus i wneud sylwadau am y cynllun eu cyflwyno iddo cyn gynted â phosibl.

Holodd un aelod pam nad oedd mwy o gynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych ar y Bartneriaeth gan fod 75% o'r AHNE o fewn Sir Ddinbych. Mewn ymateb, dywedodd Mrs S Archdale pe bai Cyngor Sir Ddinbych yn cael mwy o gynrychiolwyr yna byddai cais am gynrychiolwyr ychwanegol o blith perchnogion tir. Ymatebodd y Swyddog AHNE trwy ddweud fod holl bartneriaid yr AHNE wedi eu cynrychioli'n gyfartal ar y Bartneriaeth a bod fframwaith y Bartneriaeth wedi ei ddiffinio'n dda. Roedd wedi ei gynnwys yn y Cytundeb Cyfreithiol ar gyfer y Cydbwyllgor a oedd wedi ei rannu i holl ddarpar aelodau'r bartneriaeth a'i gymeradwyo gan y tri awdurdod.

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**Gweithredu**

- **Adran 20**
  Nid oedd cyfeiriad at fryngaer Caer Drewyn
- Dylid cyflwyno sylwadau unigol ac adborth ar y Cynllun Rheoli AHNE cyn gynted â phosibl i David Shiel

## 6. Cynllunio a Datblygu AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Gyda chymorth cyflwyniad Ppt, crynhodd Swyddog Cynllunio AHNE y gwaith cynllunio a datblygu o fewn yr AHNE. Esboniodd rôl y Bartneriaeth yn y gwaith o gynllunio a datblygu a thynnodd sylw at themâu cynllunio a'r amgylchedd adeiledig a'r polisïau yn y Cynllun Rheoli drafft.

Hefyd disgrifiwyd gwaith y cyn Gydbwyllgor Ymgynghorol Interim mewn ymateb i geisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau eraill a thynnwyd sylw at bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn gysylltiedig â'r AHNE. Hefyd, amlinellodd y Swyddog Cynllunio sut yr oeddem yn asesu cynigion datblygu yn yr AHNE, a'r dalgylch. Yn olaf, cyfeiriwyd yn gryno at faterion cynllunio a datblygu presennol ac yn y dyfodol a allai effeithio ar yr AHNE.

Yn y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad, codwyd y mater o dai fforddiadwy i bobl leol, ynghyd â pholisi Sir Ddinbych ar gyfer addasu adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl – esboniodd un aelod fod y polisi hwn wrthi'n cael ei adolygu. Cydnabuwyd yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr AHNE a chyfeiriwyd at werth canllawiau o'r fath i Langollen. Hefyd codwyd rhai cwestiynau gan aelodau ynghylch y bwriad i gyflwyno haenau newydd o gynlluniau cenedlaethol ac isranbarthol fel rhan o Fil Cynllunio (Cymru) Llywodraeth Cymru. Esboniodd y Swyddog Cynllunio y byddai'r Bil yn dod i rym yn ddiweddarach yr haf hwn ac y byddai cwmpas y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd yn debygol o adlewyrchu Cynllun Gofodol Cymru. Ni phenderfynwyd eto ar ardaloedd y cynllun isranbarthol, ond roedd cyfeiriad wedi ei wneud at goridor yr A55 fel ymgeisydd posibl.

## 7. Adolygiad Llywodraeth Cymru o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

Rhoddodd Helen Mrowiec yr Uwch Swyddog Hamdden gefndir yr adolygiad i Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac esboniodd, ar gyfer cam cyntaf yr adolygiad, fod sylwadau wedi eu derbyn gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Interim. Roedd yr Adolygiad bellach ar yr ail gam. Byddai'r Cydbwyllgor yn cyflwyno'r ymateb ar ran yr AHNE.

Edrychodd aelodau'r Bartneriaeth yn fanwl ar y cwestiynau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad ac yna cafwyd trafodaeth.

<u>Sylwadau ar yr Ymateb</u>

7.1 **Cwestiwn 1**

Trafodwyd y term <u>'Llywodraethu Effeithiol'</u> gan yr aelodau.

Mynegodd un aelod bryder fod 'llywodraethu' yn air cadarn ac yn ei barn hi, ei fod yn gyfystyr â biwrocratiaeth i'r perchennog tir, o ystyried bod llawer o dir mewn perchnogaeth breifat o fewn yr AHNE. Mewn ymateb, dywedodd aelod arall mai term gweinyddol yn unig ydoedd ac nad oedd yn fwriad bygwth y perchennog tir. Cynigiwyd ychwanegu brawddeg yn yr ymateb i egluro nad yw llywodraethu'n cyfeirio at dir mewn perchnogaeth breifat; ond yn hytrach i'r ffordd y rheolir y dynodiad.

**Gweithredu**
Cytunwyd bod y cwestiwn eisoes wedi ei lunio gan Lywodraeth Cymru ac felly nad oedd yn bosibl ei newid. Byddai brawddeg yn cael ei hychwanegu yn yr ymateb i egluro nad yw llywodraethu'n cyfeirio at dir mewn perchnogaeth breifat.

Diwygiadau

| | |
|---|---|
| Tudalen 5 | Strwythur Siart AHNE<br>**Gweithredu**<br>Blychau i'w symleiddio a'u hailddrafftio |
| Tudalen 7 | Eithrio rhag TAW a dim derbyn |
| Tudalen 4 | AONB wedi ei sillafu yn anghywir ar waelod y dudalen |

7.2 Tudalen 7
**Y weledigaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
*'Rheolir yr AHNE drwy bartneriaethau cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau bod cymunedau ac ymwelwyr yn cymryd rhan lawn wrth wneud penderfyniadau ac yn cael eu grymuso i gael rhan yn eu tirwedd leol a buddsoddi yn ei dyfodol'.*

Heriodd Mrs S Archdale pam fod y term 'grymuso' yn cael ei ddefnyddio yn y weledigaeth a dywedodd fod y term yn addas i Barciau Gwledig ond nid i dir mewn perchnogaeth breifat. Mewn ymateb, dywedodd un aelod y gallai pawb gael ei 'rymuso' i fod yn rhan o'r dirwedd a bod y dirwedd yn cynnwys nifer o gymunedau.
Cynigiwyd newid y term 'grymuso' a rhoddwyd 'annog' yn ei le.
Aeth yr aelodau ati i fwrw pleidlais. Pleidleisiodd un ar ddeg aelod dros gadw'r term 'grymuso' a phleidleisiodd chwech dros newid y term 'grymuso' a rhoi 'annog' yn ei le.

**PENDERFYNWYD**
Bod y gair 'grymuso' yn aros yn y cyflwyniad i'r adolygiad.

7.3 Dywedodd Mr Dewi Davies fod y Swyddog Cynllunio yn delio â chryn nifer o geisiadau cynllunio mewn modd amserol iawn ac awgrymodd y dylid ychwanegu **penderfyniadau amserol** at yn weledigaeth.
**Gweithredu**
Cytunwyd bod y sylwadau'n cael eu hychwanegu o dan adran 3 neu 4, yn hytrach nag o fewn y weledigaeth

7.4 Dywedodd Mr Paul Mitchell nad oedd y weledigaeth yn ateb cwestiwn 2 a ofynnwyd.
**Gweithredu**
Paragraff i'w ychwanegu

7.5 **Cwestiwn 3**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn cytuno â'r frawddeg olaf 'Byddai cynrychiolaeth genedlaethol ar  Bartneriaeth AHNE o fudd'.
**Gweithredu**
Tynnu'r frawddeg olaf

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y ffaith nad oedd y Bartneriaeth wedi ystyried y bwriad i newid enw AHNE i Dirweddau Cenedlaethol, a bod hyn, yn ei olwg ef, yn rhywbeth y dylid ei wrthwynebu. Esboniodd y Cynghorydd Hugh Jones fod y Bartneriaeth wedi cael cais i wneud sylwadau ar ail ran yr Adolygiad yn unig. Fodd bynnag, ar ôl i bob rhan o'r Adolygiad gael eu cwblhau y byddai'r amser i ystyried y bwriad i newid enw.

**Gweithredu**

Rhannu copïau o'r ymateb diwygiedig i aelodau

## 8. Rhaglen Waith i'r dyfodol y Cydbwyllgor

Rhoddodd y Swyddog AHNE gyflwyniad byr i amlinellu Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cydbwyllgor (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cynnwys gwaith hyd at wanwyn 2016.

### 8.1 Cynllun Datblygu Gwledig

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ar hyn o bryd yn paratoi prosiectau ymlaen llaw cyn y Cynllun Datblygu Gwledig a chynghorodd aelodau i feddwl am brosiectau.

## 9. Enwebiadau ar gyfer Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy 2015-16

Rhoddodd Uwch Swyddog AHNE gyflwyniad cryno a byr o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy(SDF) gan esbonio fod yr AHNE wedi cael £65,000 o gyllid SDF y llynedd.

**Gweithredu**

Rhannu Adroddiad Blynyddol y llynedd i aelodau

9.1 <u>Enwebiadau Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy</u>

Cynigiodd Uwch Swyddog AHNE fod y Panel SDF yn cynnwys cyfuniad o'r Cydbwyllgor a'r Bartneriaeth. Byddai deg sedd ar y Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Cydbwyllgor | Cadeirydd y Bartneriaeth |
| Is-gadeirydd y Cydbwyllgor | Is-gadeirydd y Bartneriaeth x2 |
| | Aelodau'r Bartneriaeth x 5 |

**PENDERFYNWYD**

**Cytunwyd mai Aelodau'r Panel Partneriaeth SDF 2015 -16 fyddai:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cynghorydd Hugh Jones** | **Cadeirydd y** | **Cydbwyllgor** |
| **2** | **Cynghorydd Huw L Jones** | **Is-gadeirydd** | **Cydbwyllgor** |
| | **Cynghorydd Stuart Davies** | **Cadeirydd** | **Partneriaeth AHNE** |
| **3** | **Cynghorydd Bob Dutton OBE** | **Is-gadeirydd** | **Partneriaeth AHNE** |
| **4** | **Cynghorydd Carolyn Thomas** | **Is-gadeirydd** | **Partneriaeth AHNE** |
| **5** | **Roger Cragg** | **Diddordeb Gwledig** | **Partneriaeth AHNE** |
| **6** | **Mike Skuse** | **Diddordeb Tirwedd** | **Partneriaeth AHNE** |
| **7** | **John Roberts** | **Diddordeb Unigol** | **Partneriaeth AHNE** |
| **8** | **Andrew Worthington** | **Mynediad a Hamdden** | **Partneriaeth AHNE** |
| **9** | **Christine Evans** | **Diddordeb Gwledig** | **Partneriaeth AHNE** |

- Byddai cyfarfod SDF ar ddiwedd Mai/dechrau Mehefin.

## 10. Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Siaradodd Mr Mike Skuse yn fyr am ddatblygiad 'Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' gan esbonio mai pwrpas y grŵp oedd

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r AHNE
- Rhoi cyflwyniadau i hyrwyddo'r AHNE
- Paratoi diweddariadau rheolaidd am yr AHNE

Byddai'r 'Cyfeillion' yn sefydliad cymdeithasol gyda'i bwyllgor ei hun, a bellach roedd gan y grŵp ei logo a'i daflen ei hun.
Diolchodd Mr Skuse i'r Swyddog AHNE, yr Uwch Swyddog a'r Swyddog Hamdden am eu cymorth a'u cefnogaeth i sefydlu'r grŵp.
Byddai Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei lansio ar:
**15 Gorffennaf 2015 ym Mhlas Newydd, Llangollen.** Roedd gwahoddiad i bob aelod o'r Bartneriaeth i'r lansiad ac roedd croeso i unrhyw gefnogaeth i'r grŵp.
Diolchodd y Swyddog AHNE i Mr Skuse am ei ymrwymiad a'i waith caled.

### 10.1 Llygredd Golau ac Awyr Dywyll yn yr AHNE

Soniodd Mr Mike Skuse yn fyr am Lygredd Golau ac Awyr Dywyll yn yr AHNE gan esbonio ei fod wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar ym Mhlas Tan y Bwlch, Eryri i ystyried llygredd golau ac awyr dywyll. Rhai o fanteision awyr dywyll oedd cyfleoedd i gefnogi'r economi lleol ac elfennau'n ymwneud â seryddiaeth. Bellach mae Parc Cenedlaethol Eryri'n ceisio ennill statws awyr dywyll. Y ddau faes craidd ar gyfer awyr dywyll a awgrymir ar gyfer yr AHNE yw - Pen y Cloddiau Llantysilo, Moel Morfydd. Dywedodd Uwch Swyddog AHNE fod awyr dywyll mewn rhai rhannau o'r AHNE eisoes, ac un o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd a gynhelir gan yr AHNE yw'r daith i fyny i fryngaer Caer Drewyn.
Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth a chydnabu aelodau y byddai'r AHNE ar ei hennill yn ariannol trwy beidio â chael goleuadau stryd. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â diogelwch yn gysylltiedig â'r peryg posibl wrth i bobl gerdded mewn mannau anghysbell yn y nos.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cefnogi'r cynllun awyr dywyll. Fodd bynnag, roedd wedi nodi'r pryderon o ran diogelwch a dylid bod yn ofalus, yn arbennig ar dir mewn perchnogaeth breifat.

## 11. Unrhyw Fater Arall

<u>Costau Teithio</u> <u>Partneriaeth AHNE</u>
Esboniodd y Swyddog AHNE fod yr 16 aelod gwirfoddol o Bartneriaeth AHNE yn gymwys i gael costau teithio. Roedd ffurflenni costau teithio ar gael gan Karen

<u>Dyddiadau dros dro Partneriaeth AHNE</u>
Dyddiadau dros ar gyfer y cyfarfodydd i'w rhannu

<u>Dogfennau Partneriaeth AHNE</u>
Dylid anfon holl ddogfennau Partneriaeth AHNE at aelodau
Byddai copïau papur ychwanegol ar gael yn y cyfarfodydd
**Gweithredu**
Ni ddylid postio unrhyw ddogfennau Partneriaeth AHNE, byddai rhai copïau papur ar gael yn y cyfarfodydd.